Y Comisiwn Etholiadol

Trosolwg testun

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Trosolwg o wariant refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd eisiau gwybod rhagor am wariant yn ystod y refferendwm.

Cynnwys:


- Cyflwyniad i refferenda
- Beth yw gwariant refferendwm
- Rheoli gwariant refferendwm
- Cofnodii gwariant refferendwm
- Datgan gwariant refferendwm

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Trosolwg o wariant refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr sydd eisiau gwybod rhagor am wariant yn ystod y refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol i'w chynnal ar 5 Mai 2011.

## Mae'r ddogfen yn ymdrin a:

- Cyflwyniad i wariant refferendwm
- Beth yw gwariant refferendwm
- Gwariant tybiannol
- Rheoli gwariant refferendwm
- Cofnodii gwariant refferendwm
- Datgan ar ôl y refferendwm

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Y broses o ddynodi

## Ffurflenni ac esboniadau refferenda

- Ffurflen RC1PVS Cais i gofrestru fel ymgyrchydd – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

## Papurau arbenigol

- Papur arbenigol: Rhannu gwariant

2

# Crynodeb

Rheoleiddir gwariant ymgyrch refferendwm o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (refferenda PPERA).

Bydd y trosolwg hwn yn rhoi dealltwriaeth lydan ichi o egwyddorion gwariant refferendwm a'r rheolau mae angen ichi gydymffurfio â nhw.

# Cyflwyniad

Cyn y cynhelir refferendwm, mae cyfnod ffurfiol o ymgyrchu a enwir 'cyfnod y refferendwm'.

Yn ystod y cyfnod hwn, o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae terfynau a rheolau gwariant ymgyrch refferendwm yn perthyn.

Mae'r terfynau a rheolau hyn yn ymdrin â'r mwyafrif o weithgareddau ymgyrchu refferendwm. Hefyd maen nhw'n dynodi pwy sy'n gallu awdurdodi gwariant a sut mae rhaid ichi gofnodi a datgan eich gwariant inni.

Os ydych chi eisiau gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu, mae rhaid ichi gofrestru gyda ni.

I gael rhagor o wybodaeth gweler:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm

# Beth yw gwariant refferendwm

Gwariant refferendwm yw gwariant ymgyrchu ar gyfer rhai weithgareddau penodol a fwriedir i hyrwyddo neu i effeithio ar ganlyniad neilltuol yn y refferendwm.

Mae'n cynnwys hefyd:

- Eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn bod y refferendwm yn cychwyn, ond a ddefnyddir yn ystod y refferendwm.
- Eitemau neu wasanaethau a roddir ichi yn rhad ac am ddim neu ar ostyngiad anfasnachol o fwy na 10% (gweler 'Gwariant tybiannol' ar dudalen 6).

I gael rhagor o wybodaeth ar y dyddiadau ar gyfer cyfnod y refferendwm a'r terfynau gwariant, gweler y ddogfen hon:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

## Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill

Mae hawl i ymgyrchwyr gydweithio os ydyn nhw'n dymuno.

Sut bynnag, bydd unrhyw wariant refferendwm yn cyfrif tuag at derfynau pob ymgyrchwr sy'n gysylltiedig. Mae hyn i atal pobl rhag osgoi'r terfynau gwariant trwy cydgysylltu nifer o ymgyrchoedd ar yr un pryd.

Dydy hyn ddim yn perthyn i weithio â grwpiau ymgyrchu arweiniol.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor ynghylch y rheolau hyn yn 'Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill' ar dudalen 7.

## Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant?

Gweithgareddau a gynhwysir mewn gwariant refferendwm yw:

- Hysbysebu o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, safweoedd neu fideos YouTube.
- Deunydd na ofynnwyd amdano a anfonir i bleidleiswyr. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni rydych chi'n eu hanfon nad ydyn nhw mewn ymateb i ymholiadau penodol.
- Dogfenni eraill sy'n gosod dadleuon eich ymgyrch.
- Ymchwil farchnata neu ddulliau eraill o ddarganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio.
- Cynadleddau i'r wasg neu cysylltiadau eraill â'r cyfryngau.
- Ralïau a digwyddiadau, gan gynnwys y gost i bobl eu mynychu, ac unrhyw nwyddau, wasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir.
- Trafnidiaeth mewn cysylltiad â chyhoeddi eich ymgyrch.

Pwysig

Mae rhaid ichi gynnwys deunydd a anfonir i'ch aelodau neu i'ch cefnogwyr.

Mae rhaid ichi gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd.

Er enghraifft, os ydych chi'n cynhyrchu taflenni neu ddeunydd hysbysebu, mae rhaid ichi gynnwys costau cynllunio a dosbarthu.

Hefyd mae rhaid ichi gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddu sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys biliau ffôn a biliau gwasanaethau ar gyfer eich swyddfa.

Mae rhaid ichi wneud asesiad onest ynghylch y swm sydd angen ichi ei ddatgan sy'n seiliedig ar y ffeithiau.

Pwysig

Dylai'r holl gostau gynnwys TAW, hyd yn oed os nad ydych chi'n gallu adennill taliadau TAW.

### Rhannu treuliau

Efallai bydd angen rhannu eich gwariant mewn rhai achosion. Er enghraifft, rhwng gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant refferendwm a'r rhai hynny nad ydyn nhw'n cyfrif. Gallwch chi ddod o hyd i ragor ar dudalen 7.

### Deunydd y gellir ei lawrlwytho

Os ydych chi'n gosod deunydd ar eich safwe er mwyn i bobl ei argraffu i'w defnydd personol, megis posteri ffenestr neu ffurflenni deiseb, dylai'r costau cynllunio a chostau'r safwe gyfrif fel gwariant ymgyrchu. Does dim eisiau ichi gyfrif costau argraffu pobl yn erbyn eich terfyn gwariant, gan y bydd y costau'n isel iawn.

Os yw'r deunydd yn gallu cael ei argraffu a'i ddosbarthu i bleidleiswyr – er enghraifft daflen – bydd angen ichi egluro sut ydych chi'n disgwyl i bobl ei ddefnyddio. Os ydych chi'n awdurdodi defnydd lletach o'r deunydd, mae'n bosibl y bydd y costau cynhyrchu'n cyfrif fel gwariant ymgyrchu.

### Costau darlledu'r grwpiau ymgyrchu arweiniol

Os ydych chi'n grwp ymgyrchu arweiniol, mae rhaid ichi gynnwys y costau o gynhyrchu eich darllediadau ymgyrchu refferendwm. Does dim angen ichi gynnwys gwerth yr amser ar yr awyr.

## Beth nad yw'n cyfrif fel gwariant?

- Amser gwirfoddolwyr
- Costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro ble mae gan yr aelod o staff gytundeb cyflogaeth uniongyrchol gyda'r ymgyrchwr.
- Biliau a rhent swyddfa'r ymgyrch (heblaw am gostau cynyddrannol sy'n perthyn i weithgareddau a gynhwysir fel gwariant refferendwm).
- Costau teithio, bwyd a llety pobl wrth iddyn nhw ymgyrchu, oni bai eich bod chi'n eu had-dalu.
- Treuliau a delir oddi wrth arian cyhoeddus. Er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau pobl pwysig iawn.

### Amser gwirfoddolwyr

Weithiau efallai fyddwch chi ddim yn siwr a yw rhywun yn wirfoddolwr neu a ddylid ymdrin â'u hamser fel gwariant tybiannol. Er enghraifft, efallai byddan nhw'n cynnig gwasanaethau tebyg yn eu gwaith arferol i'r hyn maen nhw'n eu cynnig ichi.

Byddan nhw'n wirfoddolwyr os:

- Na thelir am yr amser maen nhw'n ei threulio ar eich ymgyrch gan eu cyflogwyr (oni bai mai dyma gyfnod eu gwyliau blynyddol arferol), neu
- Os ydyn nhw'n hunan-gyflogedig, fyddwch chi ddim yn elwa oddi wrth unrhyw yswiriannau proffesiynol sydd gyda nhw.

Os ydyn nhw'n defnyddio offer neu ddeunyddiau arbenigol, dylech chi ystyried a yw eu defnydd yn wariant tybiannol, gan ddefnyddio'r egwyddorion yn yr adran isod.

## Y defnydd o ystafelloedd cyhoeddus gan grwpiau ymgyrchu arweiniol

Os ydych chi'n grwp ymgyrchu arweiniol, mae hawl gyda chi i dddefnyddio rhai ystafelloedd cyhoeddus penodol heb dalu. Does dim angen ichi gynnwys gwerth am logi'r ystafelloedd hyn fel gwariant refferendwm, ond mae rhaid ichi gynnwys unrhyw gostau am wresogi, goleuadau neu yswiriant.

# Gwariant tybiannol

Gwariant tybiannol yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng cyfradd fasnachol am eitem neu wasanaeth a'r pris rydych chi'n ei dalu.

Yn ystod eich ymgyrch refferendwm, efallai byddwch chi'n cael talu am eitemau neu weithgareddau ar gost sy'n is na'u gwerth masnachol. Er enghraifft, os yw'r darparwr yn cefnogi eich ymgyrch.

Sut bynnag, mae rhaid ichi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitemau neu weithgareddau hyn os:

- Ydych chi'n derbyn yr eitem heb dalu neu ar ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%, a
- Mae'r gwahaniaeth mewn gwerth dros £200.

Os ydych chi'n derbyn gostyngiad o 10% neu lai, neu os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth yn £200 neu lai, mae ond angen ichi gofnodi'r swm a dalwyd.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai hynny sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg, megis gostyngiadau ar gyfer archebion swmpus neu ostyngiadau tymhorol.

Mae gostyngiadau anfasnachol yn ostyngiadau arbennig eich bod chi, yn benodol, yn derbyn oddi wrth ddarparwyr.

## Prisio gwariant tybiannol

Os yw'r darparwr yn ddarparwr masnachol, dylech chi ddefnyddio'r cyfraddau maen nhw'n eu gofyn ar gyfer cwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech chi ddarganfod faint mae darparwyr tebyg yn gofyn am yr un nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel cyfradd y farchnad.

Mae'r rhyngrwyd yn adnodd da ar gyfer darganfod y gyfradd fasnachol am nwyddau

Dylech chi gadw cofnod ar sut rydych chi wedi cyrraedd eich prisiad a chadw copïau o unrhyw ddyfynbrisiau rydych chi'n eu derbyn.

Mae rhaid i'r gwerth rydych chi'n ei ddatgan fod yn asesiad teg ac onest o'r gwerth masnachol.

Os nad ydych chi'n siwr sut i brisio rhywbeth, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor os gwelwch yn dda.

### Prisio staff a drosglwyddir

Os yw cyflogwr yn trosglwyddo aelod o staff i'ch ymgyrch, mae rhaid ichi gofnodi ei gyflog crynswth ac unrhyw lwfansau fel y gwerth tybiannol.

Does dim angen ichi gynnwys cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol na chyfraniadau pensiwn y gweithiwr.

8

# Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill

Os yw ymgyrchwyr yn cydweithio, bydd unrhyw wariant refferendwm yn cyfrif tuag at derfynau pob ymgyrchwr sy'n gysylltiedig.

Er enghraifft, os ydych chi ac ymgyrchwr arall ill dau'n gwario £50,000 ar ymgyrch hysbysebu ar y cyd, mae rhaid i'r ddau ohonoch chi gofnodi cyfanswm o £100,000 yn erbyn eich terfyn.

### Cydweithio â grŵp ymgyrchu arweiniol

Mae'r rheolau'n wahanol os ydych chi'n, neu os ydych chi'n cydweithio â, grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig.

Pryd hynny, mae'r costau i gyd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y grŵp ymgyrchu arweiniol. Does dim costau'n cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchwr unigol.

Mae hyn i helpu galluogi'r grwpiau ymgyrchu arweiniol i gynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'n perthyn dim ond ar ôl i'r grŵp ymgyrchu arweiniol gael ei ddynodi.

## Beth rydyn ni'n ei olygu gan 'gydweithio'

Mae 'cydweithio' yn golygu gwario arian fel canlyniad i gynllun neu drefn rhwng un neu fwy o'r ymgyrchwyr.

Yn ein barn ni, dydych chi ddim yn cydweithio os:

- ydych chi'n cael trafodaethau anffurfiol ag ymgyrchwyr eraill, ond heb drafod eich cynlluniau â nhw yn fanwl
- ydych chi'n siarad mewn digwyddiad a drefnir gan ymgyrchwr arall, ond heb gyfranogi mewn unrhyw ffordd arall
- nad ydych chi'n ymgynghori ag ymgyrchwyr eraill ynglŷn â'r hyn y dylech chi ei ddweud yn eich ymgyrch neu sut y dylech chi ei threfnu

Yn ein barn ni, byddwch chi'n debygol iawn o gydweithio os:

- oes gennych ymgyrchoedd hysbysebu ar y cyd, taflenni neu ddigwyddiadau
- ydych chi'n cydgysylltu eich gweithgaredd ag ymgyrchwr arall, er enghraifft os ydych chi'n cytuno y dylai'r ddau ohonoch chi ymdrin ag ardaloedd, dadleuon neu bleidleiswyr neilltuol
- yw ymgyrchwr arall yn gallu rhoi sêl bendith ar eich taflenni, safweoadd, sgriptiau ffôn neu ddeunyddiau ymgyrchu eraill neu os oes ganddo ddylanwad arwyddocaol drostyn nhw

**Pwysig**

Os nad ydych chi'n siwr a fyddwch chi'n cael eich ystyried fel rhywun sy'n cydweithio ag ymgyrchwyr eraill, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor.

# Rheoli gwariant refferendwm

## Rhannu gwariant

Efallai bydd angen ichi rannu'ch costau rhwng eitemau sy'n cyfrif fel gwariant refferendwm a'r rhai hynny nad ydyn nhw'n cyfrif. Hefyd efallai bydd angen ichi rannu'ch costau rhwng eitemau a ddefnyddir cyn bod cyfnod y refferendwm yn cychwyn, a'r rhai hynny a ddefnyddir yn ystod y refferendwm.

Ymhob achos, dylech chi wneud asesiad onest, sy'n seiliedig ar ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ymgyrchu.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein Papur arbenigol: Rhannu gwariant.

## Awdurdodi a thalu gwariant refferendwm

Dim ond y 'person cyfrifol' sydd wedi cofrestru gyda ni a phobl sydd wedi'u hawdurdodi mewn ysgrifen gan y person cyfrifol sy'n gallu tynnu costau sy'n perthyn i wariant refferendwm.

Gallai awdurdodiadau berthyn i wariant ar eitemau neilltuol, neu hyd at swm neilltuol.

Mae'r rheolau hyn yn bod i sicrhau y gellir rheoli a chofnodi a datgan gwariant yn gywir.

Dylech chi sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn ymwybodol o bwy sy'n gallu a phwy nad yw'n gallu tynnu costau.

## Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

### Derbyn anfonebau oddi wrth ddarparwyr

Mae rhaid ichi gael eich holl anfonebau oddi wrth ddarparwyr o fewn 30 diwrnod o ddiwedd y refferendwm.

Os nad ydych chi'n cael anfoneb o fewn 30 diwrnod, mae rhaid ichi beidio â thalu darparwyr heb gael gorchymyn llys i wneud felly. Dylech chi sicrhau bod eich darparwyr yn ymwybodol o hyn.

### Talu anfonebau oddi wrth ddarparwyr

Mae rhaid ichi dalu eich holl anfonebau oddi wrth ddarparwyr o fewn 60 diwrnod o ddiwedd y refferendwm.

Os nad ydych chi'n talu anfoneb o fewn 60 diwrnod, mae rhaid ichi gael gorchymyn llys i allu gwneud felly.

**Pwysig**

Mae rhaid i'r person cyfrifol fod yn gallu datgan bod eich cofnod gwariant yn gyflawn a'i fod yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

Wrth ddefnyddio'r gair 'tynnu' rydyn ni'n golygu ymrwymiad cyfreithiol i wario arian, megis cadarnhau archeb.

Gwneir penderfyniadau terfynol ynghylch erlyn oherwydd derbyn neu dalu anfonebau hwyr gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Sut bynnag, fel arfer fyddwn ni ddim yn ystyried cymryd camau gorfodi ble mae'r oediadau neu'r symiau'n fach.

# 10

## Cofnodii gwariant refferendwm

Mae rhaid ichi gofnodi'ch gwariant refferendwm i gyd. Bydd angen ichi anfon y wybodaeth hin inni yn eich Ffurflen RC2PVS Ffurflen wariant ar ymgyrch refferendwm – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011.

Hefyd mae rhaid ichi gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw wariant dros £200.

Pwysig

Dylai'r holl gostau gynnwys TAW, hyd yn oed os nad ydych chi'n gallu adennill taliadau TAW.

### Beth sydd angen ei gofnodi

Ar gyfer pob eitem o wariant, mae rhaid ichi gofnodi'r wybodaeth ddilynol i'w rhoi yn eich cofnod gwariant:

- Enw a chyfeiriad y darparwr
- Ar gyfer beth oedd y gwariant – er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- Y swm neu'r gwerth
- Y dyddiad y gwarioch chi'r arian

#### Eitemau a roddir heb dâl

Os ydych chi'n derbyn eitemau heb dâl mae rhaid ichi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

#### Eitemau aroddir ar ostyngiad anfasnachol

Os ydych chi'n derbyn eitemau ar ostyngiad anfasnachol o fwy na 10% **a'i** phrisir ar fwy na £200, mae rhaid ichi gynnwys gwerth masnachol llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Os yw eitem â gwerth o fwy na £500, a'i heb dâl neu ar ostyngiad anfasnachol, mae'n bosibl ei fod yn rhodd hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

# Datgan ar ôl y refferendwm

Mae rhaid ichi ddatgan eich gwariant ymgyrchu inni ar ddiwedd cyfnod y refferendwm.

Mae rhaid i'ch cofnod gwariant gynnwys:

- Cofnodion o'ch gwariant a'ch rhoddion
- Anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad sydd dros £200
- Datganiad oddi wrth y 'person cyfrifol' i ddweud bod y cofnod yn gyflawn ac yn gywir

Mae'n drosedd i wneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n

Y ffurflen y bydd rhaid ichi ei defnyddio yw Ffurflen RC1PVS Cais i gofrestru fel ymgyrchydd – Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011.

For more information see this document:

- Templed adrodd ar gyfer archwilwyr / Ffurflen RC3W

Os ydych chi wedi gwario dros £250,000 ar eich ymgyrch refferendwm, bydd angen ichi gynnwys tystysgrif archwiliwr annibynnol hefyd.

## Terfynau amser ar gyfer datgan

Mae'r dyddiad mae rhaid ichi ddatgan inni yn ei erbyn yn dibynnu ar faint ydych chi wedi'i wario ar eich ymgyrch. Dangosir y terfynau amser isod.

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **££250.00 neu'n is?**

Adroddwch o fewn **3 mis** o ddiwedd y refferendwm.

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **uwch na £250k?**

Adroddwch o fewn **6 mis** o ddiwedd y refferendwm.

Os ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn uwch na £250,000 bydd angen ichi hefyd ddychwelyd tystysgrif archwiliwr annibynnol.

Efallai byddwch chi'n agored i gosb os nad ydych chi'n cyflwyno cofnod yn brydlon.

# 12

## Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 Infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau - ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk